# CWLWM




**MAI 2023**

Rhif 69

**Golygydd:**

**Einir Jones**

**Pris 50c**

# ***Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru***

## ***Cynnwys***

***Golygyddol***

***Cofio Catherine***

***Diolchgarwch am y Fraint a'r Cymwynasau***

***Galwad o Ganada***

***Pwy Ddywedodd?***

***Caredigion o Ogledd Cymru yn Cofio Glyn Nest***

***Adroddiadau o America ac o Aberystwyth***

***Camino i Santiago de Compostela***

***Cyffro yng Nglyn Nest***

***Atebion i Pwy Ddywedodd?***

***Teisen Lemwn***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***


***Cyrddau Blynyddol Mudiad y Chwiorydd***

# Golygyddol

Mae'n tŷ ni yn wynebu'r De-Orllewin. Grêt ar gyfer *Solar Panels* ond dda i ddim i weld y wawr.

Er hynny, rydwi'n dra ffodus i fyw ar stryd lle mae siop bron gyferbyn â ni, ac nid ar gyfer bwyd a thorth a siocled a pheint o laeth achlysurol mae'n dda chwaith. Na. Mae'n wynebu'r Gogledd-Ddwyrain.

Ar ambell i fore pan mae'n dywyll yn y gaeaf a'r lled-wanwyn, a minnau wedi codi'n gynnar cyn iddi wawrio, fe fyddai'n agor bleinds y ffrynt ac yn edrych ar y siop. Na, nid i weld ydi hi ar agor achos mi




wn ei bod (6 bob dydd a'r Sul am 7) ond yn hytrach i godi fy llygaid i'w tho fflat. Ar y to hwnnw mae ystafell wedi ei hadeiladu a ffenest fawr dda arni, ac ambell fore pan nad oes neb yn yr ystafell a phan mae'r wawr yn hyfryd fe allai weld adlewyrchiad y gogoniant rhyfeddol yn y gwydr clir. Bydd patrymau o binc a phorffor yn troi yn galeidesgop amryliw fel mae'n dyddio. Os oes rhywun yn yr ystafell welai ddim byd wrth gwrs oherwydd mae'r golau trydan ynddi yn ei gwneud yn amhosib i weld dim ond cynnwys annelwig yr ystafell ei hunan. Ond ar ddiwrnod arall bydd yr olygfa yn ogoneddus.

Mae'n debyg i'r hyn ddywed y Beibl. "Crist ynoch chwi, gobaith y gogoniant." meddai Paul yn Colossiaid. Rhaid i olau Crist gael ei adlewyrchu ym mywydau ei blant – sef NI!- er mwyn i eraill edrych a rhyfeddu at ddaioni Iesu. Os mai ni yn unig welan nhw, fydd dim lot o olau. Ond pan mae Iesu oddi mewn, yn y galon, mae'n stori – ac yn olygfa – wahanol iawn.

Einir Jones (Gol.)

Os garech gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y.b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT

Neu ebost:

einir.jones@yahoo.co.uk / jtalfryn@yahoo.co.uk

# Cofio Catherine

## (Catherine Jones, Gilead, Belan, Mon)

### Hazel Williams Jones.



Braint arbennig i mi oedd bod yn enau yn enw Mudiad y Chwiorydd a'r Senana, yn angladd Catherine ar Ionawr 7fed, gan fynegi ein cydymdeimlad diffuant â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth am un oedd yn annwyl iawn iddynt.

Ar adegau trist fel hyn mae yn natur bob un ohonom i edrych yn ôl a chofio, ac fel chwiorydd mae atgofion pob un ohonom o Catherine yn wahanol.

Fe fu i mi gyfarfod Catherine i ddechrau pan yn ymwneud â phwyll-gor Cartref Bryn Llifon ym Mangor, ac o hynny ymlaen daethom yn ffrindiau agos iawn. Er y pellter rhyngom a minnau yn byw yn Rhuthun, roedd galwad ffôn yn aml iawn rhyngom rhwng pwyll-gorau a minnau yn parchu ei harweiniad doeth a gofalus.

Fel chwiorydd, cofiwn yn dda am ei hesgyniad i Lywyddiaeth y Mudiad yn ei chapel Gilead Belan yn 2013. Thema ei neges oedd "Trwy Ddirgel Ffyrdd", a Catherine yn sôn fel yr oedd pethau bach syml wedi digwydd yn ei bywyd ond o edrych yn ôl roedd llaw ddirgel Duw arnynt, ac er bod ein llwybrau yn anodd ar brydiau, mae llaw ddirgel Duw yn ein cynnal ar y daith – do cawsom ddwy oedfa hyfryd ym Môn.

Ym mlwyddyn ei llywyddiaeth dathlodd y Mudiad ben-blwydd yn 70 oed a Catherine fu'n gyfrifol am lywio'r oedfa gofiadwy ym Methel, Aberystwyth. Bu yn hynod o ffyddlon i'n pwyllgorau ac roedd ei harweiniad a'i chyngor yn ddoeth a gofalus, ac yn ogystal, bu iddi fod yn hael ei chyfraniad i Cwlwm ac i Brosiect y Mudiad.

Soniodd yn Cwlwm fel yr oedd wedi darllen am y cerflun modern "The Way of Life" yn Eglwys Gadeiriol Ely – cerflun ydyw o ffordd igam-ogam at y Groes. Cafodd y fraint o'i weld pan ar wyliau ac yn ei geiriau hi, "Ni chefais fy siomi wrth edrych i fyny ar y groes, ond teimlais ias o foddhad wrth sylweddoli mai ar groes wag y syllai pawb ac mai Crist byw sydd gyda ni yn ein harwain, ein cynnal a'n cadw ar daith bywyd".

Mae'n siwr bod rhai ohonoch chi chwiorydd yn aelodau o Ferched y Wawr fel Catherine, a bu iddi ar o leiaf bedair gwaith yn olynol ennill am gyfansoddi pennill i roi ar eich cardiau Nadolig.

Yn ystod ei llywyddiaeth ymwelodd â'm Cymanfa innau sef Dinbych, Fflint a Meirion a chawsom ganddi sgwrs ddiddorol a doniol am ei magwraeth ym Mhen Llŷn, ei gwaith fel athrawes, a gwraig fferm ym Môn – do cawsom lawer o hwyl yng nghwmni Catherine, a deuai rhyw wên ddireidus i'r golwg o bryd i'w gilydd, a bu llawer o dynnu coes wrth aros i gael bwyd yn Rhydypennau ar ein ffordd i'n Pwyllgor ym Mhenrhyncoch oherwydd y "number plate" ar ei char oedd yn darllen i ni '2 o Fôn'.

Fel y mae pobl Môn a ninnau fel aelodau'r Mudiad wedi elwa o wasanaeth Catherine, ei chymwynas, ei harweiniad a'i chefnogaeth, y deyrnged orau medrwn ei dalu iddi yw cario ymlaen y gwaith roddodd Catherine ei bywyd drosto ac a oedd mor agos at ei chalon.

Gwên siriol oedd ei golud – a gweini'n
Ddigŵyn oedd ei gwynfyd.
Bu fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd
A lle bu hon mae gwell fyd.

Diolch i Dduw am Catherine a chael ei chyfrif yn ffrind annwyl ac agos.

Hazel Williams Jones.

# DIOLCH

Ar ran Tudor a minnau carwn ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom yn ein colled a'n hiraeth am briod a thad addfwyn ac arbennig iawn.

Gwerthfawrogir yr ymweliadau, y galwadau ffôn, y cardiau a'r rhoddion. Casglwyd £1,125 i Gartref Gofal Cysgod y Gaer, Corwen er cof am Arthur.

Llawer o ddiolch a phob bendith i chwi gyd.

Hazel Williams Jones

# Diolchgarwch am y Fraint a'r Cymwynasau

Erbyn i'r rhifyn yma o Cwlwm fod yn eich llaw, byddaf wedi trosglwyddo llywyddiaeth Senana Cymru i ddwylo diogel Menna Machreth Llwyd mewn oedfa yng Nghaersalem Caernarfon ac wedi ei llongyfarch ar y fraint. Anodd credu i flwyddyn fynd heibio oddi ar y gosodwyd y fraint honno ar fy ysgwyddau innau, a hynny yng Nghaersalem arall, yng Nghymanfa Penfro.

Mewn oes pan 'does fawr neb yn barod i gymryd at gyfrifoldebau a breintiau o'r fath, hoffwn rannu gyda chi cymaint o fraint a phleser a gefais o fod wedi derbyn yr anrhydedd. Sylweddolais anferthedd y fraint honno'n syth wrth ddod yn is-lywydd a theimlo gostyngeiddrwydd mawr wrth i fi ddarllen ym Meibl y Llywydd, y rhestr o'r cyn-lywyddion a droediodd o fy mlaen. Ni ragwelais ar y pryd fodd bynnag y fath bleser oedd o'm blaen wrth gyflawni'r gwaith.

**Oedfa Flynyddol mis Mai**

Un o'r pleserau yw eich bod yn cael eich dyrchafu i'r llywyddiaeth ar eich aelwyd ysbrydol chi eich hunan, gyda'ch bobl chi eich hunan o'ch cwmpas, a rheiny mor barod i fod o gymorth i chi mewn unrhyw fodd – yn ddynion ac yn fenywod. Rhoddodd cyrraedd y capel wefr arbennig i mi wrth weld yr holl flodau oedd yr addurno'r tu fewn a'r tu allan, a minnau'n gwybod dim! Braint a phleser oedd cael cyd-chwiorydd o'r eglwys i gymryd at y Rhannau Arweiniol, i

gyflwyno'r emynau, ac i chwarae'r organ. Pleser oedd cael fy nghyn weinidog yn gefn i mi ac i groesawu pawb i'r oedfa: i gael fy rheolwr llinell, sy'n digwydd bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, i offymru gweddi'r Urddo; ac i gael cyfeillion eraill oedd yn swyddogion Cymanfa Penfro a Mudiad y Chwiorydd i'm cyfarch.

Pleser mawr hefyd oedd cael croesawu chwiorydd o wahanol ardaloedd dros Gymru gyfan i'r oedfa, a rheiny hefyd wedi dod yn gyfeillion dros gyfnod o sawl blwyddyn wrth fy mod wedi mynychu oedfaon tebyg ar hyd ac ar led Cymru.

Roeddwn wedi dweud wrth fy hunan ar ddechrau'r diwrnod fy mod yn golygu, trwy ras Duw, i fwynhau'r achlysur ac wir i chi dyna ddigwyddodd. Daeth y diwrnod i ben drwy gymdeithasu'n braf o amgylch y byrddau ym Maenordy Llwyngwair lle'r honnir i Williams Williams, Pantycelyn ysgrifennu "Dros y bryniau tywyll niwlog" – diweddglo addas i oedfa lle roeddem wedi bod yn "dyrchafu'n llygaid i'r mynyddoedd". Y trefniadau cyn i Covid-19 amharu arnynt oedd cynnal oedfa yn yr hwyr yn ogystal, ac fe fyddem wedyn wedi gallu cael y pleser o rannu'r oedfa honno hefyd gyda fy nheulu a'm ffrindiau o 'nghwmpas.

**Cynhadledd Breswyl mis Medi**



Prif bwrpas Cynhadledd Breswyl y Senana yn Llambed yw cael dal i fyny â newyddion y BMS ac i dreulio amser yn astudio'r Beibl. Y person a ddewiswyd gan y BMS i rannu'r newyddion ym Medi llynedd oedd Tabea Dilling, a chafwyd cyfle i ddysgu mwy am waith ein cenhadon mewn dau sesiwn ar y dydd Mercher. Minnau gafodd y

fraint a'r pleser o ofyn i'r person a fyddai'n gyfrifol am gyflwyno'r Astudiaethau Beiblaidd ac ni allwn feddwl am neb gwell na'r person yr wyf wedi bod yn gynorthwyydd personol iddi am nifer o flynyddoedd. Yn garedig iawn, er ei holl brysurdeb, derbyniodd y Parchg Judith Morris y gwahoddiad. Cafwyd dau sesiwn bendithiol iawn ganddi ar fore Mercher ac Iau yn astudio hanes Debora'r Proffwyd a'r Barnwr, a ninnau'n cael ein herio a'n hysgogi gan brif negeseuon yr hanesyn hwn am yr unig arweinydd milwrol benywaidd yn yr Hen Destament.

Wrth reswm, mae gan y llywydd rôl i'w chwarae yn y gynhadledd breswyl hefyd. Yn ogystal â llywio'r digwyddiad, rhoddir y noson gyntaf yn gyfangwbl yn ei gofal hi. Cefais bleser ar y nos Fawrth o rannu gyda phawb ychydig o hanes y Senana yng Nghymru a hynny drwy gyfrwng Beibl y Llywydd, y llyfr 'Helaeth Casglu', a'r tlws hyfryd a gyflwynwir i bob llywydd dros gyfnod ei llywyddiaeth. Gyda'r tlws prydferth hwnnw o aur a pherlau wedi ei greu ar lun tywysen, achubais ar y cyfle o wahodd un oedd â sgiliau arbennig ganddi i greu pob math o bethau tlws allan o dywysen gwenith.



Bu Aeres James, un a fu'n gyd-aelod â mi yng Nghapel Bethlehem, Trefdraeth yng nghyfnod fy mhentyndod a'm hieuenctid, yn arddangos ei sgiliau, a phawb wedyn yn cael cyfle i greu tywysen fach eu hunain i fynd adre gyda nhw. Braf hefyd oedd gweld ffrindiau o Gylch Carn Ingli wedi ymuno gyda ni ar gyfer y noson.



*Aeres James a Bonni Davies*

Ystyrir y nos Fercher i fod yn rhan bwysig iawn o'r gynhadledd ac unwaith eto, caiff y Llywydd ddewis pwy fyddai'n cymryd at Oedfa'r Cymun. Braint a phleser arbennig i mi oedd i'r Parchg Alwyn Daniels, fy nghyn weinidog, dderbyn y gwahoddiad hwnnw a chafwyd bendithion mawr o dan ei arweiniad.

Bellach, a'r fraint o fod yn Llywydd Senana Cymru wedi ei throsglwyddo i arall, rwyf yn edrych nôl yn ddiolchgar iawn am iddi gael ei gosod am flwyddyn fach arnaf i, ac yn diolch yn arbennig i bawb a fu'n gymwynaswyr hael i mi wrth i mi geisio cyflawni fy nghyfrifoldebau. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch!

Cofiaf am un o weinidogion Sir Benfro, y diweddar Barchedig John Roberts, yn dweud na ddylid byth dweud 'na' i fraint oedd yn gysylltiedig â bod o wasanaeth i Dduw. Roedd hynny pan oeddwn ar fin cael fy ethol yn Llywydd y Gymanfa. Rwy'n ddiolchgar am ei gyngor ac yn gwybod erbyn hyn mai rheini sy'n barod i roi o'u gwasanaeth yw'r rhai sy'n derbyn yn ôl. Gallaf eich sicrhau bod y pleser a'r fendith a dderbyniais o fod wedi cymryd cyfrifoldeb fel hyn – a rhai eraill tebyg - yn rhagori gan mil ar y fraint. Gallaf eich sicrhau hefyd mai'r pleser a'r fraint fwyaf yw cael yr Iesu'n gydmaith i chi ar hyd y daith honno wrth i chi geisio cyflawni darn bach, bach o'i waith ar y ddaear.

Bonni Davies, cyn lywydd Senana Cymru

# Galwad o Ganada

## Buddug Medi



Roedd y Parch David Lewis ar daith bregethu – gweinidog gyda'r Bedyddwyr ydoedd ac yn byw ar fferm yn nhalaith Manitoba, Canada. Roedd gwreiddiau'r Parch David Lewis yn Aberdâr,ond bu'n byw yn Glasgow, y Rhyl a Plas Merlyn, Rhuddlan cyn ymfudo i Ganada yn 1906.

Gŵr gweddw oedd o pan ddaeth i bregethu i gapel Bedyddiedig Carrog ger Corwen. Bu farw Annie, ei wraig, yn 1910. Roedd ganddynt bump o blant sef Martha, John, Mungo, Benjamin a Betty.

Yn y gynulleidfa y diwrnod hwnnw sylwodd ar gwpwl ifanc. O holi amdanynt deallodd bod Robert, y llanc, yn cynorthwyo ei dad ar fferm Fron Newydd yn ardal Morfudd, Carrog, sef cartref y teulu o'r 1890au ymlaen. Mam Robert oedd Mary (g. Mathews) o Lyn Ceiriog lle roedd ei rhieni yn nyddwyr gwlân.

Winifred (g. Davies) oedd gwraig Robert a buan y bedyddiwyd hi yn null y Testament Newydd ac ymaelododd gyda'r Bedyddwyr yng Ngharrog.

Yn ŵr gweddw gyda phump o blant a fferm i'w thrin gwelodd David Lewis fod y cwpwl ifanc yng Ngharrog yn ateb ei anghenion.

Roedd teulu Fron Newydd yn rhai am grwydro, a buan y cytunodd y ddau i ddod i fyw i Ganada.

Y telerau oedd tri chant a hanner o ddoleri y flwyddyn gyntaf i Robert ac yn codi i bedwar cant yr ail flwyddyn. Byddai Winifred yn derbyn can doler bob hyn a hyn am gadw'r tŷ a'r teulu Lewis.

Bu'n rhaid gwerthu bron bopeth o eiddo Robert a Winifred. Arwerthiant rhad oedd hwn a chelfi yn gwerthu am ychydig geiniogau.

Erbyn dydd Gwener, Mawrth 29ain 1912, a'u mab Evan yn dri mis oed, dringodd y teulu bach ar fwrdd llong y Virginia yn Lerpwl.


*Robert, Winifred ac Evan*

Daeth brawd Winifred, Evan Davies, i gyd-deithio. Buont yn hwylio am wyth niwrnod cyn cyrraedd Halifax yn Nova Scotia ar Ebrill 6ed. Roedd cryn daith wedyn i fferm y Parch David Lewis yn Stonewall sydd dros ugain milltir o Winnipeg yn nhalaith Manitoba. Cyrhaeddodd y tri o Gymru, ac Evan, brawd Winifred, fferm y gweinidog ar Ebrill 13eg.

Yn nyddiadur y Parch David Lewis gwelwn i Robert gael ei anfon i sychu cors ddeuddydd wedi iddo gyrraedd. Ymhen mis roedd Robert yn hau hadau yn y tir a sychwyd.

Testun llawenydd i Robert a Winifred oedd gweld capel Bedyddwyr hanner milltir o'u cartref. Ond doedd yr un popty yn y gegin. Rhaid oedd berwi cig ar y tân agored. A ble roedd y doleri a addawyd? Doedd dim gair o sôn am gyflog Robert. Câi Winifred ychydig arian yn achlysurol.

Teimlodd Winifred bod gwir angen staes arni. Ond doedd yr un siop yn Stonewall yn gwerthu peth felly! Roedd Winnipeg yn rhy bell i deithio yno a gadael Evan bach adre. Bu raid i'w brawd, Evan Davies, yr hen lanc, fynd i siopau Winnipeg ar ei rhan!

Roedd sefyllfa ariannol Robert yn amhosib. Anfonodd at ei rieni yn Fron Newydd, Carrog i ofyn am fenthyciad i dalu cost llong a thrên. Trefnwyd i ddod adre ar yr *Empress of Ireland*, Mai 28ain, 1914. Rhywsut neu'i gilydd wrth iddyn nhw gyrraedd yr harbwr am 4.30 y pnawn roedd y llong wedi hwylio i lawr afon *Saint Lawrence* i gyfeiriad y cefnfor. Siom fawr oedd troi 'nôl i'r ffarm a theulu'r Parch David Lewis. Ond…daeth newydd! Aeth yr *Empress of Ireland* i niwl trwchus. Tua dau o'r gloch y bore daeth llong lo, y *Strastead* o Norwy a tharo'r *Empress* yn ei chanol.

Ymhen llai na chwarter awr suddwyd y llong a'r criw, cyfanswm o 1072 o eneidiau. Ond ni suddodd y llong lo o Norwy.

Ond, rhaid oedd mentro unwaith eto, a chyrraedd Lerpwl ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno. A thrên yn eu disgwyl – trên fyddai'n aros yn steshon Carrog. A dyna'r peth gorau a welsant!


Roedd teulu Fron Newydd wedi trefnu llety iddyn nhw yn Tŷ Du, Carrog.

Mae gen i lythyr gan Mungo, mab y Parch David Lewis, wedi marw ei dad, yn addo anfon arian i Robert Jones cyn y Nadolig – bedair blynedd ar ddeg wedi iddyn nhw gyrraedd Carrog yn ôl!

Pan o'n i'n blentyn gofynnais i Mam "Pam daeth dad a  nain a taid yn ôl bron yn syth o Ganada?"

A'i hateb doeth oedd  "Doedd Taid ddim yn cael iechyd yn Canada...a.a...fe wnaethon' nhw adael eu pres ar ffarm yno."

Merch Evan Bach ydw i, a Robert a Winifred yn Daid a Nain i mi. Diolch am law Duw yn eu hachub.


89154 Evan Davies / / brawd Winifred /
89155 Robert Hughes / / /
89159 Robert Jones / / Robert Jones /
Mrs / wife gwraig /
Evan ... / inf plentyn /
89214 J A Ainsworth / lat /
89219 Harry Chew / /
89215 W Heath / / Prydeinig
89265 P Carter / / y Virginian

---

# Pwy Dd'wedodd Hwnnw?

1. Pwy ddywedodd "Bydded!"
2. Pwy ddywedodd "Bydded i mi yn ôl dy air Di."
3. Pwy ddywedodd "O na byddai fy mhen yn ddyfroedd."
4. Pwy ddywedodd "Addola Dduw."
5. Pwy ddywedodd "Y mae amser i bob peth…"
6. Pwy ddywedodd "A'i gwymp a fu fawr."

(PARHAD)

7. Pwy ddywedodd “Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog.”

8. Pwy ddywedodd “ Sêl dy dŷ di a’m hysodd i.”

9. Pwy ddywedodd “ Pa le mae oen y poethoffrwm?”

10. Pwy ddywedodd “Nid â’r celwrn blawd yn wag na’r stên olew yn sych.”

11. Pwy ddywedodd “Yn y flwyddyn y bu farw’r brenin Usseia gwelais yr Arglwydd..”

12. Pwy ddywedodd “Rho i mi yma, ar ddysgl, ben Ioan Fedyddiwr.”

13.Pwy ddywedodd “Cod a chymer y plentyn a’i fam a ffo i’r Aifft.”

14. Pwy ddywedodd “Arian ac aur nid oes gennyf..”

15. Pwy ddywedodd “Hyn oll a roddaf i ti os syrthi i lawr…”

16. Pwy dywedodd “Pwy wyt ti Arglwydd?”

17. Pwy ddywedodd “Ferched Jeriwsalem, nac wylwch o’m plegid i..”

18. Pwy ddywedodd “Gwaith mawr yr wyf fi yn ei wneud i’r Arglwydd ac oherwydd hynny ni allaf fi ddyfod.”

19. Pwy ddywedodd “Gresyn na fyddai fy meistr yn gallu gweld y proffwyd sydd yn Samaria – byddai ef yn ei wella.”

20. Pwy ddywedodd “Mi a glywais lawer am y gŵr hwn.”

21. Pwy ddywedodd “Yr oeddwn yn yr Ysbryd ar Ddydd yr Arglwydd.”

22. Pwy ddywedodd “Y wraig a roddaist i fod gyda mi a roddodd i mi o ffrwyth y pren.”

23. Pwy ddywedodd “Gorffenwyd.”

24. Pwy ddywedodd “Gwna i ti arch o bren goffer..”

25. Pwy ddywedodd “Os gwyddoch y pethau hyn gwyn eich byd os gwnewch hwynt.”

(Gweler yr atebion ar dudalennau 27-28)

# Caredigion o Ogledd Cymru yn Cofio Glyn Nest

## Bonni Davies

Diolchir i ddwy aelod ffyddlon o Bwyllgor Gwaith Mudiad y Chwiorydd am anrhegion caredig i Gartref Gofal Glyn Nest yn ddiweddar.

Bydd aelodau'r pwyllgor bob amser yn edrych ymlaen at adroddiadau diddorol Mair Roberts, ysgrifennydd Pwyllgor Tŷ'r Cartref, yn y pwyllgorau ac yn y cyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r cartref wrth gwrs wedi bod yn rhan annatod o'r Mudiad ers y cychwyn cyntaf a daeth yn amlwg iddo fod yn agos iawn at galonnau Hazel Williams Jones ac Ann Owen o Gymanfa Dinbych Fflint a Meirion.

Ysgrifenyddes Eglwys Heol y Parc Rhuthun yw Hazel a hi hefyd yw Arolygwr y Gymanfa a thrysorydd gofalus Mudiad y Chwiorydd a Senana Cymru. Aelod yn Salem, Fforddlas yw Ann Owen a rhai blynyddoedd nôl rhoddodd ar gof a chadw, mewn llyfr deniadol, hanes yr eglwys honno. Hi hefyd yw ysgrifenyddes Cymanfa DFFM.

Bellach mae'r anrhegion wedi ymgartrefu yn y cartref ac yn harddu'r muriau yn Ystafell Bloomfield.

Yn y lluniau gwelir y ddwy'n cyflwyo'r anrhegion i Bonni Davies, ysgrifennydd Cwmni Rheoli Glyn Nest.



Hazel Willliams Jones



Ann Owen

# Adroddiadau o America
# ac o Aberystwyth

## Heddwch Nain-Mamgu




Roedd yr 21 o Fawrth yn ddiwrnod mawr i grŵp Heddwch Nain-Mamgu yma yn yr Unol Daleithau! Gwahoddwyd ni i Amgueddfa Genedlaethol Hanes Gogledd America i gydnabod, ac i ddathlu fod Deiseb oddi wrth Heddwch Gwragedd Cymru i Wragedd yr U.D. ganrif yn ôl yn gadael ac yn mynd i'w chartref newydd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cawsom gyfarfod anffurfiol iawn a chyfle i sgwrsio â'r staff sydd wedi bod mewn cysylltiad â Chymry ers ddiwedd Awst 2018 pan gadarnhawyd fod y ddeiseb yno. Cyflwynodd Carys Williams (10 oed) dusw o Genin Pedr ar ran y genhedlaeth ifanc, i gynrychiolydd o'r Amgueddfa.

Roedd yna foment arbennig pan wnaeth y wraig a dderbyniodd y blodau sychu dagrau, wrth dynnu sylw at y bathodyn Draig Goch a wisgai, a sôn am ei thras Cymreig. Cyflwynodd Mererid Hopwood awdl hynod a ysgrifennodd hi ar gyfer yr achlysur. Yn ffodus roedd nifer o Heddwch Nain Cymru yn gallu ymuno â ni ar Zoom. Wna i byth anghofio y pnawn yna.

Chawsom ni ddim gweld y gist na dalennau o'r ddeiseb, roedden nhw yn cael eu paratoi ar gyfer ei hail daith ar dros y môr, ond fe gawsom weld yr Apêl wreiddiol at wragedd America, a mae hwnny yn mynd i fyw yn Amgueddfa y Smithsonian o hyd gan ei fod yn neges bwysig a pherthnasol. Mae copi ohono yn y Llyfrgell Genedlaethol.



Grwp bychan ydy Heddwch Nain-Mamgu yma, llai na deg ohonom, ond mae pawb wedi roi eu hamser a'u doniau i'r gwaith yma. Mae cael y cyfle i wneud cyfraniad sylweddol i Gymru oddi yma wedi bod yn un dwfn ac emosiynol i, ac wedi cadarnhau ein Cymreictod. Ymlaen â ni at y gwaith o wireddu y freuddwyd!

Ann Griffith, Yr Unol Daleithiau

## Cefndir Heddwch Nain Mamgu
## yr Hanes, y Gist, a'i Chynnwys

Mae'n siŵr bod llawer ohonoch chi wedi clywed stori ryfeddol Deiseb Heddwch Merched Cymru 1923-24 erbyn hyn. Er iddi fod yn stori goll ers bron i ganrif, mae hi wedi tanio brwdfrydedd a dychymyg wrth iddi ddod i'r amlwg yn y blynyddoedd diweddar.

Stori merched yw hi a doedd dim syndod felly iddi fynd i'w cholli. Yn Chwefror 1924, cyflwynodd grŵp bach o ferched o Gymru ddeiseb i ferched yr Unol Daleithiau yn Efrog Newydd ac yna aethon nhw i'w ddangos i'r Arlywydd Coolidge yn y Tŷ Gwyn yn Washington DC.

Apêl oedd y ddeiseb, gan ferched Cymru, yn erfyn ar America i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd er mwyn sicrhau heddwch byd. Roedd y ddeiseb wedi ei harwyddo gan ymron i 400,000 o ferched Cymru a casglwyd y llofnodion mewn cwta bedwar mis.

Mewn cyfnod byr, heb fawr iawn o ffonau heb sôn am yr holl declynnau cyfathrebu sydd gennym ni heddiw, casglwyd yr enwau ar ddeiseb oedd, wedi iddi ddod ynghyd, yn ymestyn am saith milltir. Fe'i rhoddwyd mewn cist bren hardd. Pedair o ferched – wel menywod go drawiadol – fu'n tywys y gist a'i gynnwys i America gyda'r apêl.

*We long for the day when the affairs of nations shall be no longer subject to the verdict of the sword.* Roedd yr apêl hefyd yn cyfeirio at wared *the detestable traffic in women and children, combating the trade in opium and other noxious drugs, secure America… participates in the Court of International Justice*, ac yna'r dyhead angerddol am a *warless world*.



Cafwyd hyd i glawr yr Apêl yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd wrth i staff yno dwrio ar gyfer prosiect Cymru'n Cofio 1914 sef cynllun y Llywodraeth i gofio'r Rhyfel Mawr. Doedd neb yn gwybod fawr ddim o'r hanes. Wrth ymchwilio ymhellach, dyma ddarganfod y stori. Clywodd criw bychan o wragedd o ardal Porthmadog a Blaenau Ffestiniog am yr Apêl. A dyma holi, tybed oedd fy nain yn un o'r rhai arwyddodd y ddeiseb. Galwodd y grŵp bach hwn ei hunain yn Heddwch Nain-Mamgu. A dyna ydyn ni, casgliad o ferched sy'n awyddus i adrodd stori'r neiniau a'r mamau-cu ac i wireddu eu dyhead am fyd heb ryfel.

Cafwyd hyd i'r gist yn cynnwys yr holl lofnodion - yr holl saith milltir ohonyn nhw - mewn storfa yn amgueddfa'r Smithsonian yn Washington DC.

Ar ôl tair blynedd o drafod a chynllunio gofalus, mae'r Smithsonian wedi trosglwyddo'r gist yn ôl i Gymru. Cafwyd cyfarfod cyffrous a rhyfeddol o emosiynol yn y Llyfrgell Genedlaethol ar Ebrill 5 i groesawu'r gist yn ôl.



*Y llun o'r Guardian*

Mae gan Partneriaeth Heddwch Cymru – y mae Heddwch Nain - Mamgu yn rhan ohono – nifer o gynlluniau cyffrous i ddathlu'r gist, i ddigido ei gynnwys, i ddweud yr hanes, ac yn bwysicach na dim, i gydio eto yn her gwragedd 1923 i ymgyrchu dros fyd heb ryfel.

(*Os hoffech wybod rhagor, mae aelodau grŵp Heddwch Nain Mamgu yn fodlon iawn ddod i'ch cymdeithas leol i ddweud yr hanes: heddwchnain.mamgu@gmail.com*)

Sian Wyn Siencyn

---

Gwnewch beth allwch chi gyda'r hyn sydd ganddoch chi lle rydych chi. (Theodore Roosevelt)

Y ddawn o fod yn ddoeth yw'r ddawn i wybod beth i'w anwybyddu. (William James)

Peidiwch fyth â thorri'r hyn y gellir ei ddatod. (Joseph Joubert)

# Camino i Santiago de Compostela

**Jayne a José Picouto**

Fe gychwynnodd ein taith oddi cartref ar Fehefin 15fed, 2022. Mae hanes Santiago yn mynd yn ôl ymhell dros fil o flynyddoedd fel cyrchfan i bererinion, ac yn ystod ein hoes gyda'n gilydd mae José a minnau wedi ymweld â Santiago lawer gwaith. Mae fy ngŵr yn enedigol o ardal Galicia ac fe'i ganwyd yn La Coruna, tua deg milltir ar hugain o Santiago ei hunan.

Ar bob ymweliad roeddem ni wedi cyfarfod â nifer fawr o bererinion llon os blinedig ar derfyn eu taith. Roedden nhw'n cyrraedd y gyrchfan arbennig yn y sgwar hyfryd, Sgwar Obradoio, ar bob tywydd, hyd yn oed pan oedd y tywydd yn dda ac yn wael. Yn y glaw trymaf hyd yn oed – ac mae'n bwrw lot yn Sbaen - allwch chi byth wneud dim ond edmygu pensaerniaeth ardderchog yr Eglwys Gadeiriol wrth i chi fynd i mewn trwy'r 'Portico de La Gloria" a dyna pryd wnaethon ni addewid i ddod yno rhyw ddydd ein hunain ar derfyn taith fel pererinion cyfoes.

Ar fy ymweliad cyntaf gyda'r Eglwys Gadeiriol rwy'n cofio cyffwrdd â'r marmor pan aethom ni i mewn i'r Portico de La Gloria ac yna fe gawsom ni wrando ar lais tenor hyfryd un o'r offeiriaid ac yna wylio'r Thuser enfawr – y 'Botafumerio' yn cael ei dynnu o ochr i ochr gan raffau enfawr tebyg iawn i rai llong, a'r chwe dyn cryf yn lledu'r arogl hyfryd trwy gangell yr eglwys wrth symud y thuser enfawr fry.



*Santiago de Compostella*

Y gred gyffredinol am angen yr aroglau hyfryd ar derfyn taith gerddded mor faith yw nad oedd y pererinion cynnar yn gallu cadw yn lân iawn ar y daith, ac erbyn iddynt gyrraedd yr eglwys fe fydden nhw braidd yn anfelys ddwedwn ni, yn enwedig os oedd cannoedd ohonyn nhw yn yr un fan! Felly roedd y thuser enfawr yn melysu aroglau'r eglwys! Wel roedden ni wedi cerdded tua 184 kilomedr i Santiago ac wedi cael cawodydd cynnes yn gyson a newid ein dillad wrth gwrs! Ond fe allen ni ddeall yn iawn sut arogl fyddai ar bobl oed wedi cerdded llawer pellach na ni heb gyfleusterau cyfoes – 778 kilomedr o St. Jean Pied de Port yn Ffrainc bell. Felly yr oedd y syniad o thuser fawr gan y Curia yn un ardderchog ac yn ateb y drewdod ar y pryd ac yn y cyfnod cynnar!

Fe benderfynodd José a minnau gerddded y Camino er cof am Alex, y mab, ac roedden ni wedi trafod y peth sawl gwaith gyda fe ar adegau hapusach. Bellach, roedden ni'n teimlo bod yr amser yn addas i ddechrau ar y fath daith. Doedden ni ddim yn sicr cofiwch faint o dasg fyddai hi na chwaith ac a fyddai gennym ni ddigon o egni i gwpla'r cerdded, ond wrth gynllunio ein taith a threfnu pethau ac felly fe wedon ni wrth ein hunain am groesawu'r anwybod, cadw meddwl agored a mwynhau'r rhyddid wrth gerdded yr hen lwybr cysegredig yma.



*Y Pererin Modern*

Roedden ni wedi gweld rhaglenni dogfen ar y teledu ac wedi darllen llyfrau a chysylltu gyda nifer o gwmniau a'n helpodd ni i drefnu'r daith ond yn bwysicach fyth fe gawsom ni gyngor gan ffrindiau oedd wedi cerdded rhannau o'r Camino eu hunain ac fe gawsom ni lawer o wybodaeth a chyngor defnyddiol dros ben. Fe allwch chi gerdded gyda'r ci, ac mae ganddom ni un bychan (Sancho) ond doedd pob man aros ddim yn derbyn cŵn felly fe gafodd aros gartref gyda ffrindiau i ni tra'r roedden ni'n cerdded am yr un diwrnod ar ddeg.

Roedd ganddom ni fapiau ac roedden ni wedi paratoi yn fanwl gan gario dŵr a plasters ac yn y blaen gyda ni. Er ein bod wedi penderfynu yn fwriadol peidio ymuno gydag un grwp arbennig ar y

daith yma a mynd yn ddim ond ni'n dau – doedden ni byth ar bennau ein hunain tra'n cerdded oherwydd roedd cymaint o bobl yn gwneud yn union yr un peth â ni. Ond roedd yn daith arbennig i'w thrysori gennym am ein bod yn cofio bywyd un person arbennig iawn a fu yn ein bywydau ni,a doedden ni ddim yn gallu rhannu y rhodd arbennig honno gyda neb arall mewn gwirionedd.


*Ar y llwybr*

Roedden ni'n cerdded tua 15–22 kilomedr y dydd gan gychwyn yn gynnar, tua 7-8 o'r gloch ar ôl brecwast - ond nid bob dydd cofiwch – ac felly fe fydden ni'n cyrraedd ein man gorffwys heb fod yn hwyrach na 3–4 o'r gloch mewn da bryd i gael cawod a bwyd ac i feddwl am y dydd. Hefyd, gan ein bod yn bererinion modern roedd ein dillad a'n stwff yn cael ei bigo i fyny bod dydd a'i gario i'r gwesty nesaf rhag i ni orfod cario'r pwysau hwnnw hefyd ar y daith.

Aethom ni ddim ar goll unwaith na drysu chwaith oherwydd mae'r llwybr i Santiago wedi ei nodi yn glir gyda phileri llwyd a melyn a glas, pileri ac arnynt arwydd y gragen yn pwyntio'r tua'r fan chi'n teithio iddo nesaf. Mae'r pellter hefyd wedi ei nodi arnynt. Dyna braf oedd cyrraedd arwydd y 10 kilomedr olaf cyn cyrraedd Santiago ar y dydd olaf o fewn golwg tyrrau yr Eglwys Gadeiriol yn y pellter.

Fe fuon ni'n ffodus iawn yn y tywydd hefyd, ychydig o law a thyrfe, a dim ond yn y ddau ddiwrnod olaf y cawsom ni wres eithafol o 25-32.

Fe wisgon ni sanau gwlân cofiwch – rhag cael pollethi - ac esgidiau cerdded bob cam o'r daith ac fe lwyddon ni gerdded yn iawn. Roedd pob man aros yn wahanol. Ar y noson gyntaf roedden ni yng Ngwesty 4*Alfonso IX a'r noson wedyn mewn beudy a newidiwyd yn annedd. Fel pererinion modern hefyd roedd ein bwyd a'n mannau aros wedi eu dewis yn barod ac roedd yn braf peidio gorfod poeni am ble arhosen ni neu ble caen ni fwyd, ar ôl teithiau caled trwy hen

goedwigoedd, dros afonydd a bryniau ac yn y blaen. Doedd hi ddim yn daith hawdd bob cam credwch fi!

Ond roedd yn hyfryd ac yn ychwanegu at egni rhywun cofiwch wrth anadlu aer y bore bach ar ddechrau dydd arall a gwylio ambell gwningen yn cerdded neu ysgafrnog yn rhedeg heibio gan sylwi arnom. Roedd digonedd o adar ar gael, sawl cloc larwm o Gnocell y Coed yn ein dihuno, Storciau yn nythu ar dyrrau eglwysi, sawl Sgrech y Coed ac adar mân ac un Robin a'n dilynai'n ddyddiol i bob golwg. Un o'r munudau mwyaf gwefreiddiol i mi oedd gweld, tra roeddwn yn sefyll ger hen bont garreg, tua hanner cant o bili-palas glas, bychain yn hedfan yn dorf i'r goedwig. A rhaid peidio anghofio son hefyd am y coed deri a chastanwydd hynafol a'r muriau carreg oedd yn ein cysgodi rhag yr haul a'r glaw tra'n rhoi cartref i lusards gwyrddion a'u cuddliw yn berffaith.

Mae Natur yn rhyfeddol ac roedd y tawelwch yn ein helpu i anghofio pethau dibwys y byd a dim ond mwynhau ac ymlacio yn y prydferthwch a'r tawelwch o'n cwmpas. Weithiau deuai sŵn cerddoriaeth fel y cerddai grŵp o bobl ifanc heibio, yna clip clop ceffylau'r *Guardia* Civil yn marchogaeth eu ceffylau llyfn a pherffaith ac yn dymuno 'Buen Camino' i ni fel yr aent heibio yn ein sicrhau gyda'u presenoldeb.

Roedden ni'n teimlo yn ddiogel bob amser a byth yn unig chwaith wrth feddwl yn ôl am yr holl bobl ddiddorol a rhyfeddol â gwrddem ni bob dydd ac am y gwirfoddolwyr oedd mor barod i estyn llaw i helpu ym mhob eglwys ar y ffordd.

Mae'r rhan fwyaf o bobl rydych chi'n gyfarfod ar y Camino yn dod o bellafoedd byd ac yn ystod y daith fe fyddant yn mynd heibio i chi sawl gwaith gan bod y cyfan yn dibynnu ar gyflymder yr uniglion sy'n cerdded. Felly, yn ystod y daith fe gwrddon ni lwythi o bobl a adawodd eu hôl ar ein calonnau ac a ddaeth yn ffrindiau gyda ni mewn sawl achos. Hectoro Juares o Mecsico oedd un. Fe gerddodd ef yr holl 778 kilomedr i ddiolch i'r Apostol Iago am iddo oroesi damwain ofnadwy rai blynyddoedd yn ôl. Roedd ei goes yn dal yn drwg ond roedd yn ddyn ysbrydol a thyner yn llawn ffydd, ac fe gawsom swper gydag ef yn Portomarin un noson.

Hefyd, y bachgen 14 oed a gychwynnodd o Sarria gyda'i dad er

mwyn cofio am ei fam. Ond syrthiodd ei dad yn ystod y daith ac roedd ei ben-glin yn boenus iawn.  Bu'n rhaid iddo anghofio'r Camino a mynd i'r ysbyty. Felly fe benderfynodd y crwt gerdded ar ei ben ei hunan, bachgen unig a dewr yn wir. Neu'r famgu oedd yn 80 o Zaragoza a'i dwy wyres y neu harddegau. Fe anafodd ei migwrn a dim ond tridiau o daith cyn ei gorffen ac fe fu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty heb gwpla'r daith.

Hefyd, Shamus oedd yn wreiddiol o'r Iwerddon oedd yn gwisgo cilt Wyddelig ac yn gymeriad a hanner. Taerai ei fod wedi cyfarfod y Pab Ffransis ac yn roedd yn dangos y dystiolaeth i ni gan ein bod yn amau ei eirwiredd! Roedd yn ddoniol ac yn ddiddorol ac fe gawsom ginio gydag ef a hefyd gyda Roberto o Bortiwgal nad oedd yn credu geiriau Shamus ar y dechrau chwaith. Roedd wedi cerdded y Camino 15 o weithiau gyda'i deulu cyn hyn. Ond bu'n rhaid i ni i gyd gyfaddef ein bod wedi drwgdybio Shamus y Gwyddel oedd bellach yn byw yng Nghofentri  pan dangosodd y prawf i ni sef lluniau ohono'i hunan gyda'r Pab Ffransis, ac yn cyflwyno iddo bêl rygbi! Cinio arbennig yn wir ac fe gafodd y ddau gyda ni glywed am y Cymru a'r Sgarlets hefyd.

Ac yn olaf ond nid yn ddiwethaf fel petai y ddwy wraig o Awstralia, un newydd fynd trwy ysgariad a'r lall oedd newydd golli ei thad, ac roedd y ddwy yn hwyliog er gwaethaf eu colled, ac yna fe gyflwynon ni nhw i ddwy ferch arall o Leicester o Dubai, y ddwy gyda'u hanesion eu hunain. Fe alwon ni nhw yn '*Spice Girls*' ac fe groesodd ein llwybrau sawl gwaith ac fe fyddwn yn siwr yn eu cwrdda eto rywdro yn y dyfodol.



*Sgwar Obradoio*

Fel y cerddon ni i mewn i Santiago ac o fewn golwg yr Eglwys Gadeiriol roedd yr haul yn gynnes arnom ac fe glywsom ni sŵn canu fel Cymanfa'r Eisteddfod. Fe arhoson ni yn y sgwar ac roedd pawb yn gwylio grwp o tua chant o bobl ifanc yn eu harddegau o bob rhan o Sbaen yn arddangos baneri eu taleithiau.A dyma grwp arall o bobl ifanc yn eu gweld ac yn ffurfio rhes bob ochr iddynt a chanu cân werin o Galicia. Sylwodd rhai bechgyn ar yr olwg flinedig oedd arnom ni, bererinion blinedig, ac felly fe fynnon nhw ein bod ni yn cerdded i mewn i'r twnel cariad redden nhw'n ei ffurfio yn gyntaf, gan ein bod wedi dod mor bell ar ein taith. Felly, yn llawn emoshwn fe aethon ni trwy'r twnel i sŵn pibgrwth o Galicia a lleisiau ifanc yn canu. Doedd neb wedi paratoi hyn, digwydd ohono'i hun wnaeth y cyfan, Roedd pawb yn llawenhau ac yn cael hwyl gan ein bod yn dathlu cyrraedd pen y daith.

Rhuthrodd y tair Almaenes a dynnodd ein lluniau yn gynt yr un dydd atom pan welson nhw ni yn dod i mewn i Sgwar Obradoiro, a munudau hyfryd oedd yr rheini yn llawn emoshwn a dagrau. Dagrau hapus cofiwch gan ein bod i gyd yn sylweddoli bod pawb ohonom, am ba gymhelliad bynnag roedden ni wedi cerdded, wedi cyrraedd.

Wnawn ni byth anghofio'r daith hon na bobl gwrddon ni arni ac fel y dywedodd fy ngŵr, "Rydyn ni wedi cyfarfod y rhan orau o'r ddynioliaeth."

Ac i ni, fe edrychon ni lan i'r awyr las, ddigwmwl a gweiddi ar dop ein lleisiau, "Alex bach, we did it!"



*José a Jayne*

# CYNNWRF YNG NGLYN NEST




**Meilyr Tomos yn cael ei recordio yng Nghartref Glyn Nest ar gyfer rhaglen Cymorth Cristnogol i'w darlledu 21ain o Fai, 2023.**

## Atebion i "Pwy Ddywedodd?"

1. Duw – yn Genesis 1, 1. Pan mae'n dechrau creu popeth yn y dechreuad.
2. Mair, wrth yr angel Gabriel yn Nasareth. (Luc 1,38.)
3. Jeremeia (druan) y proffwyd, wrth alaru dros stad ei wlad a'i bobl. ( Jeremeia 9,1)
4. Yr angel wrth Ioan yn Datguddiad 22,9. Roedd Ioan am blygu i lawr a'i addoli.
5. Y Pregethwr (Solomon o bosib) yn ei lyfr. (Pregethwr 3,1.)
6. Iesu yn ei ddameg am y Tŷ ar y Tywod. (Mathew 7, 27.)
7. Iesu ben Sirach yn ei Lyfr o Ddoethineb yn yr Apocryffa, (44,1.)
8. Y disgyblion a Ioan yn dyfynnu Salm 69,9 wrth gofio Iesu yn glanhau'r Deml. (Ioan 2,17)
9. Isaac yn holi ei dad Abraham wrth gerdded am Fryn Moreia. (Genesis 22,7.)
10. Eleias wrth weddw Sareffta yn ystod y sychder a'r newyn. (1 Brenhinoedd 17, 14)

11. Eseia’r proffwyd yn sôn am ei weledigaeth yn y Deml ar ddechrau ei yrfa. (Eseia 6,1)

12. Salome, merch Herodias wrth Herod ei llys-dad ar ôl iddi ddawnsio iddo a’i blesio ar ei ben-blwydd. ( Mathew 14,8)

13. Yr angel wrth Joseff wedi ymweliad y Doethion. (Mathew 2,13)

14. Pedr wrth y dyn cloff wrth Borth Prydferth y Deml cyn iddo ei iachau. (Actau 3,6)

15. Satan wrth Iesu gan ei demtio wedi iddo ddangos iddo holl deyrnasoedd y byd. (Mathew 4,9.)

16. Paul ar ffordd Damascus wedi iddo weld y golau llachar.

(Actau 9,5)

17. Iesu ar ei ffordd i’r groes. Dim ond Luc 23,28 sy’n cofnodi.

18. Nehemeia wrth wrthod gwahoddiad i rai oedd am ei ladd. (Nehemeia 6,3.)

19. Y gaethferch fach o Israel wrth wraig Naaman y Syriad. (2 Brenhinoedd 5,3.)

20. Ananeias o Ddamascus wrth Dduw wedi iddo gael gorchymyn i fynd i weld Saul yn y Stryd Uniawn. (Actau 9,13.)

21. Ioan ar Patmos, (Datguddiad 1,10.)

22. Yr hen Adda wrth ateb cwestiwn Duw a phasio’r bai. (Genesis 3,12.)

23. Gair olaf Iesu ar y groes yn ôl Ioan. (Ioan 19,30.)

24. Duw wrth Noa yn Genesis 6,14.

25. Iesu wedi iddo olchi traed ei ddisgyblion a siarad â hwy ar nos Iau Cablyd. (Ioan 13,17.)

---

# Teisen Lemwn

# Heb Flawd Ynddi

200 gram o fenyn wedi ei feddalu

200 gram Siwgwr Mân

4 wy

175 gram o almwn wedi ei falu'n fân (ground almonds)

250 gram o datws wedi eu potsho/stwnsho

Croen 3 lemwn wedi ei ratio

2 lond lwy de o bowdwr codi (heb gluten os mynnwch)

Ar gyfer y top

Sudd un lemwn

4 llond lwy de o swigwr

Twymwch y ffwrn i 180/nwy 4

Irwch dun dwfn 8 modfedd a rhoi papur menyn ynddo .

Curwch y menyn a'r siwgwr nes eu bod yn olau ac ygafn. Ychwanegwch yr wyau yn raddol a churo'n dda bob tro rydych chi'n ychwanegu.

Dodwch yr almwn i mewn a'r tatws a'r croen lemon a'r powdwr codi.

Trowch i'r tun a chrasu am tua 40-45 munud nes bod sgiwer yn y canol yn dod allan yn lan. Tynnwch y deisen allan o'r tun. Cymysgwch y sudd a'r siwgwr a thywallt dros y cyfan tra mae'r deisen yn dal yn boeth a gadael i'r deisien oeri'n iawn.



Llun: Good Food Guide bbc



# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

Diolch am gyfle i rannu gyda darllenwyr Cwlwm rywfaint o hanes y Mudiad oddi ar mis Medi diwethaf. Credaf mai'r newyddion mwyaf cyffrous yw ein bod, o'r diwedd, wedi gallu cyfarfod wyneb yn wyneb ar ddau achlysur.

**Cyfarfodydd Blynyddol 2022** – Ar ôl gorfod aros yr hir am yr achlysur hwn, hyfrydwch pur oedd gallu ymgynull yn y Tabernacl Caerdydd ganol Medi a chael bod yn dystion i Mrs Ruth Davies yn camu i'r llywyddiaeth. Cafwyd dwy oedfa arbennig iawn ar y thema "Merched yn Bennaf". Yn ei hanerchiad cyfeiriodd y llywydd at negeseuon cyfoes o hanesion Miriam, Abigail, Mair mam yr Iesu, a Dorcas. Bu oedfa'r hwyr yn gyfle i glywed gan dair o ferched proffesiynnol, Awen Iorwerth, Rhian Huw Williams a'r Dr Rosa Hunt, sut yr oedd eu ffydd wedi dylanwadu ar eu gwaith. Cyfoethogwyd yr oedfa hefyd gan eitem gerddorol hyfryd gan Mair Long o "Offeryn dy Hedd" darn o waith Sian Rhiannon ac Euros Rhys. Bu'n gyfle hefyd i gyfarfod ag is-lywydd y Mudiad, y Parchg Sian Elin Thomas ac i Miss Eleri Lloyd Jones gamu lawr o'r llywyddiaeth yn dilyn tair blynedd yn y swydd.

**Prosiect Y Mudiad 2022-2024** – Lansiwyd Prosiect diweddaraf y Mudiad ar y thema "Gofal" yn y Cyfarfod Blynyddol yng Nghaerdydd. Ceir yn y llyfryn, sydd ar werth am £2, oedfaon cyflawn ar gyfer myfyrdod ac addoliad. Diolchir i chwiorydd o Gymanfaoedd Caerfyrddin a Cheredigion, D.Ff.M., Dwyrain Morgannwg, Gorllewin Morgannwg a Phenfro am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r adnodd. Gyda chymaint o eglwysi bellach heb weinidog, gallai'r llyfryn hwn fod o ddefnydd gwerthfawr i'n heglwysi.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd** – Diolchir i'r Parchg Jill Tomos am addasu a chyfieithu'r oedfa unwaith eto ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Diolchir hefyd i bawb a ddaeth ynghyd i gynnal oedfa wyneb yn wyneb neu dros zoom. Roedd Jill yn barod i wneud y gwaith eleni eto, ond yn teimlo erbyn hyn y dylai rhywun arall gael y cyfle. Rydym felly'n chwilio am wirfoddolwyr ac yn

gobeithio y bydd enw ar gael erbyn mis Gorffennaf. Rhowch wybod os chi'n meddwl gallech chi ei wneud.

**Pwyllgorau** – Llawenydd mawr i nifer o'r aelodau oedd i ni lwyddo i gyfarfod wyneb yn wyneb ym Mhenrhyncoch ar gyfer Pwyllgor Gwaith mis Mawrth. Roedd yna garfan arall fodd bynnag oedd yn ffafrio cyfarfod drwy gyfrwng zoom. Bu cryn drafod felly a ddylid cynnal y Pwyllgor Cyffredinol ym mis Gorffennaf wyneb yn wyneb neu dros y we. Ni lwyddwyd i ddod i benderfyniad, ond yn hytrach, ystyriwyd y byddai'n well trafod hyn wyneb yn wyneb yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 6ed Gorffennaf gan y byddai mwy o gynrychiolwyr yn bresennol.

**Colled** –Yn drist iawn, collwyd aelod arall o'r Pwyllgor Gwaith, sef y ddiweddar Catherine Jones, Sir Fôn, un a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o'r Mudiad oddi ar iddi gael ei hethol yn is-lywydd y Mudiad yn 2012. Gweler teyrnged iddi yn y rhifyn hwn.

**Her Y Llywydd** – Gosododd ein llywydd pesennol her iddi'i hunan yn ystod blwyddyn ei llywyddiaeth. Yn ystod ei hymchwil ar ferched y Beibl ar gyfer ei haraith, cafodd wybod gan y Parchg Aled Davies am y llyfr "Unveiled – Women of the Old Testament", gan ofyn iddi a fyddai'n barod i'w gyfieithu i'r Gymraeg. Cydiodd yn yr her a gyda chymorth saith o ferched y Tabernacl, aed ati i gyfieithu'r 40 pennod. Roedd y gwaith bellach wedi ei gwblhau a gobeithid y byddai'r llyfr yn barod i'w lansio yng Nghynhadledd Flynyddol yr Undeb.

**Cyflwyniad Y Mudiad Yng Nghynhadledd Yr Undeb** – Edrychir ymlaen i'r cyfarfodydd yn y Tabernacl Caerdydd ar 23 a 24ain Mehefin pan fydd Mr Bill Davies, gŵr ein llywydd presennol, yn camu o Lywyddiaeth yr Undeb. Llywydd ac is-lywydd y Mudiad fydd yn gyfrifol am Gyflwyniad y Mudiad, gyda Ruth yn rhoi hanes 'Her y Llywydd' a Sian Elin, sy'n gaplan y cartref, yn rhoi hanesion difyr am ddeiliaid Glyn Nest.

**Glyn Nest** – Oherwydd amgylchiadau amlwg, ni lwyddwyd i gynnal Dydd Agored Glyn Nest oddi ar Awst 2019. Edrychir ymlaen yn eiddgar felly i ail ddechrau'r arfer ar y 30ain Awst eleni. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron nawr!

**Gwau a gwnïo** - Mae'r ymgyrchoedd gwau a gwnïo'n parhau a minnau wedi derbyn llwythi eto o ddeunydd a fydd yn helpu'r llai ffodus yn ein cymunedau a thu hwnt. Diolchir i bawb a fu'n brysur gyda'u dwylo ac anogir chi i barhau gyda'r gwaith da.

**Deiseb Heddwch Nain Mam-gu** – Mae gweithgareddau cyffrous wedi digwydd yn ddiweddar a cheir darllen yn y rhifyn hwn am y cyfarfod yn y Smithsonian yn Washington, gyda phwyllgor Cymru yn ymuno ar zoom; ac am gyrhaeddiad y gist wreiddiol nôl i Gymru.

**Is-Lywydd 2023 – 2024** – Ni ddaeth llywydd o Fôn oddi ar 2013 a da gallu dweud felly i'r Parchg Deb Stammers, gweinidog cynorthwyol ac Ysgogydd Cymanfa Môn, dderbyn yr anrhydedd.

**Cwlwm** – Diolchir o galon i bawb a gyfrannodd tuag at rifyn arall o'r Cwlwm ac yn arbennig iawn i Einir Jones am ein hannog i gyfrannu a rhoi'r cyfan at ei gilydd. Diolch hefyd i swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru am eu hargraffu. Daliwn ati i barhau gyda'r cyfrwng gwerthfawr hwn o gadw mewn cysylltiad â'n gilydd.

**Cyfarfod Blynyddol 2023** – Daw'r adroddiad i ben fel y dechreuodd, gyda chyfarfodydd Blynyddol y Mudiad. Cynhelir y cyfarfodydd eleni yng nghapel y **Graig Castell Newydd Eml**yn, Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, **ddydd Mercher, 13 Medi** am 2.00yp a 5.30 yp gyda the yn y festri rhwng y ddau gyfarfod. Pob dymuniad da i'r Parchg Sian Elin wrth iddi gamu i'r llywyddiaeth.

# Cyrddau Blynyddol Mudiad y Chwiorydd





Braint o'r mwyaf yw cael cymryd llwyddiaeth Mudiad y Chwiorydd ym mis Medi.

Estynnir gwahoddiad twymgalon i chi i gyd i Gapel y Graig, Castellnewydd Emlyn. Bydd y ddwy Oedfa yn adlewyrchu'r ardal a'r gymuned glos. Hefyd gyda phwyslais cryf ar waith arbennig Cartref Glyn Nest. *Y Parchedig Sian Elin Thomas*